

# ADRODDIAD EFFAITH IONAWR – MEDI 2022



Swansea University  
Prifysgol Abertawe



Prifysgol Abertawe

## MENTERGARWCH MYFYRWYR

Cewch eich Ysbrydoli | Cymerwch Ran | Byddwch yn Fentrus

Lluniwyd gan y **Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi**

# CWRDD Â'R TÎM MENTERGARWCH

Mae'r Tîm Mentergarwch canolog yn rhan o'r Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS). Maen nhw'n gyfrifol am helpu i weithredu rhaglen strategol Entrepreneuriaeth Ieuencid Llywodraeth Cymru drwy gefnogi myfyrwyr a graddedigion i fod yn fwy entrepreneuriaid a rhoi iddynt y meddylfryd, y profiadau a'r sgiliau angenrheidiol i ddechrau eu busnesau eu hunain, gyrfa lawrydd neu fenter gymdeithasol.

AMDANOM NI...



**Emma Dunbar**

Pennaeth Ymgysylltu,  
Arloesi ac  
Entrepreneuriaeth



**Kelly Jordan**

Uwch-swyddog  
Cymorth Mentergarwch



**Angus Phillips**

Swyddog Cymorth  
Mentergarwch



**Paige Windiate**

Swyddog Cymorth  
Marchnata Mentergarwch



**Joel Bowen**

Cynorthwy-ydd  
Gweinyddol Mentergarwch



## CYSYLLTU Â NI

[enterprise@abertawe.ac.uk](mailto:enterprise@abertawe.ac.uk)

[www.swansea.ac.uk/enterprise](http://www.swansea.ac.uk/enterprise)

[Swansea University Enterprise](#)

[Enterprise\\_SwanUni](#)

[Swansea-university-enterprise](#)

# EIN GWELEDIGAETH

Mae datblygu talent arloesol ac entrepreneuriaid yn nodwedd arbennig o brofiad myfyrwyr Prifysgol Abertawe, sy'n trawsnewid bywydau a dyfodol drwy ddatgloi a meithrin cymuned entrepreneuriaid gysylltiedig.



## EIN CENHADAETH

1

Gwreiddio ecosystem a diwylliant entrepreneuriaid effeithiol a dynamig

2

Hyfforddi graddedigion entrepreneuriaid ac arloesol y mae galw mawr amdanynt, o bob Cyfadran

3

Cael ein cydnabod yn genedlaethol fel prifysgol sy'n meithrin mentergarwch ein myfyrwyr


# YMRWYMEDIG I'N MYFYRWYR



Rydym wedi creu fframwaith i gefnogi **"Taith Entrepreneuriaidd"** ein myfyrwyr drwy ddarparu amgylchedd o gynhwysiant a hygyrchedd, er mwyn annog busnesau newydd a helpu ein myfyrwyr i feithrin eu sgiliau a'u meddylfryd entrepreneuriaidd a'u gwytnwch.

## 1,248 O FYFYRWYR:

WEDI COFRESTRU AR 34 MODIWL YN CANOLBWYNTIO AR FENTERGARWCH, ENTREPRENEURIAETH NEU ARLOESI.



# YMGYSYLLTU

Cyflwynwyd **13,395** o fyfyrwyr i entrepreneuriaeth trwy sgysiau codi ymwybyddiaeth, gweithgareddau a digwyddiadau gyrfaoedd



# GRYMUSO

**1,460** o fyfyrwyr wedi'u grymuso i archwilio a datblygu eu gallu entrepreneuriaidd drwy weithdai, digwyddiadau hacathon a mentrau entrepreneuriaidd



# PARATOI

Dilysodd **95** o fyfyrwyr syniadau trwy fasnachu prawf a mentora

**49** o fyfyrwyr wedi'u meithrin i ddechrau busnes trwy gyfarfodydd cynghori un i un

**26** Busnes wedi'u dechrau



# RHYNGWEITHIO Â MYFYRWYR AR DRAWS POB DISGYBLAETH

Dadansoddiad Fesul Cyfadran:

	Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg	Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
<b>YMGYSYLLTU</b>	35%	52%	13%
<b>GRYMUSO</b>	45.5%	34.9%	19.6%
<b>DILYSU SYNIADAU</b>	55%	37.5%	7.5%
<b>WEDI'I FEITHRIN</b>	55%	37.5%	7.5%
<b>WEDI DECHRAU</b>	50%	46.2%	3.8%



**YMGYSYLLTU**

**GRYMUSO**

**DILYSU SYNIADAU**

**WEDI'I FEITHRIN**

**WEDI DECHRAU**

## Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

Yr Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu	4%	5.5%	7%	7%	7.7%
Yr Ysgol Reolaeth	26.8%	35.5%	37.5%	37.5%	42.3%
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton	2%	1.5%	7.5%	7.5%	0%
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol	2.2%	3%	3%	3%	0%


## Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg

Yr Ysgol Peirianeg Awyrofod, Sifil, Drydanol, Gyffredinol a Mecanyddol	6.2%	3.5%	15%	15%	20%
Yr Ysgol Mathemateg a Chyfrifiadureg	27.3%	20%	10%	10%	15.4%
Ysgol y Biowyddorau, Daearyddiaeth a Ffiseg	15%	9.4%	5%	5%	0%
Yr Ysgol Peirianeg a Gwyddorau Cymhwysol	3.5%	2%	7.5%	7.5%	10.8%

## Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd

Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	6.5%	9.8%	2%	2%	0%
Yr Ysgol Seicoleg	3.5%	5%	2%	2%	0%
Yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol	3%	4.8%	3.5%	3.5%	3.8%

# THEMÂU CYFLYMYDDS



## 1. ADEILADU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURIAID

Rydym yn cynnal digwyddiadau a mentrau i adeiladu cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr a chymdeithasau arwain eu gweithgareddau mentergarwch eu hunain, gan greu cymuned entrepreneuriaeth gynhwysol, hygyrch a chysylltiedig.

### Menter 'Just Enterprise It'

Mae'r Tîm Mentergarwch yn cefnogi myfyrwyr a chymdeithasau i gynnal eu digwyddiadau mentergarwch eu hunain yn y brifysgol trwy eu taleb 'Just Enterprise It' sy'n werth £200, y gallant ei defnyddio i helpu i ariannu gweithgareddau fel lansio cynnyrch, gweithdai cychwyn busnes a thrafodaethau panel gydag entrepreneuriaid.

### Mentrau Ymchwil Ôl-raddedig Entrepreneuriaid

Er mwyn helpu i adeiladu cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, bu'r Tîm Mentergarwch yn mynychu diwrnodau agored, yn cyflwyno gweithdai entrepreneuriaid ac yn cynnal digwyddiadau hyfforddi, gan gynnwys Cyflymydd Arloesedd dan arweiniad arbenigwyr blaenllaw o iungo Solutions.



**2 FENTER DAN ARWEINIAD MYFYRWYR**

**5 DIGWYDDIAD I DDATBLYGU ENTREPRENEURIAID YMCHWIL ÔL-RADDEDIG**

**10 MYFYRWYR WEDI'U CYFLOGI FEL INTERNIAID**

**30 DIGWYDDIAD I ADEILADU RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU**



## 2. BLAENORIAETHAU A CHYDWEITHREDU RHANBARTHOL

Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, busnesau a sefydliadau addysgol rhanbarthol, fe wnaethom nodi a chreu nifer o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol, sy'n cefnogi busnesau newydd a chymunedau lleol, gan wella meddylfryd, sgiliau a rhwydweithiau ein myfyrwyr ar yr un pryd.

### Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf 2022

Cynhaliodd y rhwydwaith Hyrwyddwyr Mentergarwch yng Nghymru Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf ym mis Mehefin, cwrs cychwyn busnes ar-lein arobryn sy'n galluogi cyfranogwyr i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i ddatblygu, meithrin a thyfu eu syniadau busnes.

### Digwyddiad Cydweithio a Rhwydweithio TownSq

Cymerodd y Tîm Mentergarwch a nifer o'u busnesau myfyrwyr newydd ran mewn digwyddiad ar y cyd â TownSq a oedd yn cynnwys ymweld â nifer o fannau cydweithio newydd yn Abertawe, i rwydweithio a datblygu sgiliau trwy weithdai a masnachu.



## 3. CYCHWYN A THYFU BUSNESAU

Buom yn datblygu cyfleoedd arloesol i nodi a chefnogi myfyrwyr a oedd â diddordeb mewn entrepreneuriaeth ac i helpu'r rhai sydd eisoes mewn busnes i dyfu, gan gynnwys grantiau cychwyn busnes, sesiynau cyngor ar fusnes, gweithdai rhyngweithiol, interniaethau mentergarwch a mwy.

### The Big Pitch 2022

Mae'r gystadleuaeth The Big Pitch yn rhoi cyfle i fyfyrwyr entrepreneuriaid gyflwyno eu syniadau busnes i ennill hyd at £3,000 o gyllid, a ddarperir gan Santander Universities UK, cyfleoedd mentora a mwy. Eleni, cyflwynodd 15 o fyfyrwyr eu syniadau busnes a dyfarnwyd cyfanswm o £10,500 i helpu'r rhai a oedd yn cychwyn busnes.

### Entrepreneur Preswyl 2022

Darparodd sylfaenydd busnes lleol a chyn-fyfyriwr o Brifysgol Abertawe, Dr Ben Reynolds o'r Urban Foundry, adnodd amhrisiadwy wrth gyflwyno gweithdai a sesiynau cyngori 1 i 1 i un ar gyfer 11 myfyriwr entrepreneuriaid yn y brifysgol fel Entrepreneur Preswyl.

**7 DIGWYDDIADAU RHWYDWEITHIO RHANBARTHOL**

**16 DIGWYDDIADAU A MENTRAU MENTERGARWCH DAN ARWEINIAD Y GYFADRAN**

**45 O FYFYRWYR O ABERTAWE WEDI COFRESTRU AR GYFER WYTHNOS CYCHWYN BUSNES YR HAF**

**3 CYSTADLEUAETH CYCHWYN BUSNES**

**3 RHAGLEN CYCHWYN BUSNES**

**8 LLEOLIAD GWAITH I ENTREPRENEURIAID**

**18 MYFYRIWR AR GYFLYMYDD ARLOESI**

**60 O FYFYRWYR MEWN BŴ-CAMP I FUSNESAU**

# YMRWYMEDIG I STAFF

Mae'r Brifysgol yn parhau i feithrin ei chymunedau mewnol, gan weithio ar y cyd i greu synergeddau a chysylltiadau ledled tair cyfadran y Brifysgol a'i hadrannau proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi ein gilydd i rannu arferion gorau, adnoddau ac addysgu ar draws cyfadranau, er mwyn chwalu ffiniau a seilos traddodiadol i rymuso eraill i ddarparu entrepreneuriaeth.

**85**  
HYRWYDDWYR  
STAFF WEDI CRONNI



UNDEB Y  
MYFYRWYR

**12**



GWASANAETHAU  
PROFFESIYNOL

**23**



CYFADRANAU

**50**



# GWEITHIO GYDA DARPARWYR CYMORTH RHANBARTHOL



**8**  
DIGWYDDIAD  
PARTNER  
RHANBARTHOL  
WEDI'U CEFNOGI

**13**  
CYN-FYFYRIWR  
YN YMWNEUD Â  
GWEITHGAREDD

**18**  
RHANDDEILIAD  
ALLANOL YN  
YMGYSYLLTU

## Prifysgolion Santander

Fel un o'r 85 o Brifysgolion Santander, rydym yn derbyn cyllid i gefnogi Addysg, Cyflogadwyedd a Mentergarwch. Derbyniodd y Tîm Mentergarwch £24,000 i gefnogi myfyrwyr i ddechrau busnesau. Caiff y cyllid hwn ei ddyfarnu drwy weithgareddau megis cystadlaethau pitsio a rhaglenni cyflymu.

## Syniadau Mawr Cymru

Defnyddiwyd 30 Model Rôl i gefnogi ac annog entrepreneuriaeth ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, trwy sgysiau a digwyddiadau rhwydweithio llawn ysbrydoliaeth, gweithdai cychwyn busnes a thrafodaethau panel.



# ASTUDIAETHAU ACHOS MYFYRWYR YN CYCHWYN BUSNES

## Kiwis

Wrth iddo deithio'r byd, cafodd Daniel Eedy, sy'n astudio am MSc mewn Twristiaeth Ryngwladol, ei ysbrydoli i ddechrau busnes yn gwerthu powlenni llyfnffrwyth Acai, sef saig faethlon o Frasil yn wreiddiol. Gyda chynghor gan y tîm Mentergarwch, datblygodd Daniel ei syniad a defnyddiodd gyllid gan y Big Pitch i helpu i lansio ei fusnes yn Abertawe yn gynharach eleni. Mae'n masnachu'n aml mewn manau masnachu dros dro yn Abertawe ac mae ganddo stoc ar werth ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe.



## Aspera

Mae Ashima Anand yn fyfyrwraig Peirianeg Sifil yn y drydedd flwyddyn sy'n angerddol am blanhigion a phopeth naturiol. Cafodd ei chefnogi gan y tîm Mentergarwch i lansio ei siop blanhigion ei hun. Agorodd siop ar-lein i ddechrau nes iddi allu manteisio ar gyllid a chyfle mentora a dderbyniwyd trwy'r Big Pitch Mawr i agor ei siop gyntaf yng nghanol Dinas Abertawe.



## Dream Events Designs

Rhwng ei hastudiaethau, dilynodd Kelsey Milward, myfyrwraig Nyrsio yn ei thrydedd flwyddyn, ei dawn greadigol a chafodd ei chefnogi gan y tîm Mentergarwch i lansio ei busnes ei hun, Dream Events Design, sy'n darparu gwasanaeth cynllunio, cyfarpar a phropiau ar gyfer pob math o ddiwydiadau ac achlysuron arbennig.



# DATHLU LLWYDDIANT!



## CYFRES GENEDLAETHOL GWOBRAU CYCHWYN BUSNES 2022



**Prifysgol Abertawe'n  
cynnal Cynhadledd  
Ryngwladol i Addysgwyr  
Mentergarwch (IEEC) 2022**



**Busnes Newydd y Flwyddyn a sefydlwyd  
gan berson ifanc, Busnes Newydd  
Gwyrdd y Flwyddyn, Busnes Newydd  
y Flwyddyn Bae Abertawe a Busnes  
Newydd y Flwyddyn yng Nghymru**

*Enillwyr*

Joelle Drummond a Sarah Drummond  
[www.dropbearbeers.com](http://www.dropbearbeers.com)



**Cyrhaeddodd y Tîm Mentergarwch  
y rhestr fer yn y categori 'Cyfraniad  
Eithriadol at y gymuned Ymchwil  
ar Arloesi,' yng ngwobrau Ymchwil  
ac Arloesi Prifysgol Abertawe 2022**

**Masnachwr  
Ifanc y  
Flwyddyn  
2022**

*Enillydd  
Rhanbarth  
Abertawe*

Dan Eedy  
**Kiwis**



**Busnes Newydd y Flwyddyn a  
sefydlwyd gan Fyfyriwr Graddedig**

*Enillydd*

Alex Coldea  
[mydill.co.uk](http://mydill.co.uk)



# BETH DDYWEDODD EIN MYFYRWYR A'N CYDWEITHWYR...



Drwy gydol fy modiwl Menter Gymdeithasol, rydw i wedi meithrin ymwybyddiaeth well ynghylch sut mae mentrau cymdeithasol yn cael eu sefydlu a'u trefnu, a sut maen nhw'n chwarae rôl bwysig yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Tim Mentergarwch a'r academyddion a addysgodd y modiwl yn llawn dealltwriaeth a gwybodaeth, ac roedd hi bob amser yn hawdd mynd atyn nhw. Hefyd, cawsom ni'r fraint o gael ychydig o siaradwyr gwadd a oedd naill ai'n gweithio yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol neu wedi sefydlu eu menter gymdeithasol eu hunain. Roedd hyn yn ategu cynnwys y modiwl ac roedd yn fuddiol ar gyfer yr aseiniadau. Rydw i bellach yn ymwybodol bod modd sefydlu menter gymdeithasol, a bod cymorth ar gael gan y Tim Mentergarwch er mwyn sefydlu un o'r mentrau hyn.

**Catherine Gourlay**  
BSc Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r fim Mentergarwch wedi bod yn gymorth mawr o'r dechrau. Maen nhw'n wedi cefnogi fy musnes gyda chyllid, cyfleoedd i fasnachu ar y campws ac yn y ddinas, sydd wedi rhoi cyfle i mi gwrdd â busnesau eraill, hyrwyddo fy musnes ar gyfryngau cymdeithasol y brifysgol a chynnyddu ymwybyddiaeth o fy musnes a fy sylfaen cwsmeriaid yn gyflymach nag y gallwn fod wedi'i wneud ar fy mhen fy hun. Byddwn yn argymhell bod unrhyw un sy'n dechrau busnes yn cysylltu a'r fim Mentergarwch, mae'r cyfleoedd wedi bod yn ddiddiwedd.

**Ashima Anand**  
Aspera

Mae'r fim Mentergarwch yn REIS yn chwarae rôl hanfodol yn y Brifysgol. Wrth i addysg mentergarwch ddod yn fwy cyffredin ac yn rhan annatod o bob rhaglen, maen nhw'n darparu adnodd cefnogi rhagorol, yn enwedig fel rhan o'r rhaglen rheoli busnes. Maen nhw wedi darparu cymorth addysgeg mewn nifer o ffyrdd, sef cynnal seminarau, darparu siaradwyr gwadd, a gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi'r swyddogaeth dysgu ac addysgu o fewn y grŵp pwnc mentergarwch. Maen nhw'n bobl wych i weithio gyda nhw gan ddangos agwedd 'gallu gwneud' mewn ffordd y mae myfyrwyr yn ymateb iddi. Fel sefydliad rydym yn ffodus o allu cydweithio â nhw.

**David Bolton**  
Cyfarwyddwr Rhaglen BSc Rheoli Busnes a Darpar Lywydd Enterprise Educators UK

Rydym yn cael llawer o gymorth gan y Tim Mentergarwch yn ein modiwl Arloesi Gwyddonol ac Entrepreneuriaeth, gan gyflwyno ein myfyrwyr i ecosystem arloesi Abertawe, a rhoi iddynt y sgiliau i ddechrau eu busnesau eu hunain. Rydym hefyd yn cael cymorth am weithgareddau ar y campws sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr, yng nghyd-destun entrepreneuriaeth.

**Dr Francisco Martin-Martinez**  
Uwch-ddarlithydd, y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg



# RHESTR BUSNESAU NEWYDD 2022

## Aa Printing

**Ashima Anand**  
Gwasanaethau Argraffu Personol  
[www.facebook.com/aaprintinguk](https://www.facebook.com/aaprintinguk)

## Alana Jayne Jewellery

**Alana Jayne**  
Siop Gemwaith ar-lein  
[www.etsy.com/uk/shop/alanajaynejewellery](https://www.etsy.com/uk/shop/alanajaynejewellery)

## Alpine Photography

**Jacob Isaac**  
Busnes Ffotograffiaeth  
[www.alpinephotography.co.uk](https://www.alpinephotography.co.uk)

## Aspera

**Ashima Anand**  
Siop Planhigion ac Anrhegion  
[www.asperalife.co.uk](https://www.asperalife.co.uk)

## Bowla Ltd

**Hannah Worth**  
Busnes Gwerthu Mowldiau Pobi Creadigol

## Ceriacrochet

**Jade Driscoll**  
Eitemau a dillad wedi'u crocio  
[www.instagram.com/Ceriacrochet/?hl=en-gb](https://www.instagram.com/Ceriacrochet/?hl=en-gb)

## Desi Nightz Swansea

**Srihans Kodali**  
Cwmni Digwyddiadau Diwylliannol ar gyfer myfyrwyr  
[www.instagram.com/desinightzswans](https://www.instagram.com/desinightzswans)

## Dream Events Design

**Kelsey Milward**  
Cwmni Propiau a Chyfarpar ar gyfer Digwyddiadau  
[www.instagram.com/dreameventsdesign](https://www.instagram.com/dreameventsdesign)

## Ebbah Sustainovation

**Enock Ebbah**  
Atebion Carbon Sero ar gyfer BBaCh  
[www.ebbahsustainovation.co](https://www.ebbahsustainovation.co)

## Ethereal Ltd

**Cameron Beynon**  
Dillad Ecogyfeillgar  
[www.instagram.com/ethereal.limited](https://www.instagram.com/ethereal.limited)

## Fused Glass Art Shop

**Rebecca Morgan**  
Llestri Gwydr  
[www.etsy.com/uk/market/fused\\_glass\\_art](https://www.etsy.com/uk/market/fused_glass_art)

## Green Savings Group

**John Lewis & Mathew Thomas**  
Busnes Ymgynghori Amgylcheddol Di-elw  
[www.greensavingsgroup.wixsite.com/leaptogreen](https://www.greensavingsgroup.wixsite.com/leaptogreen)

## Growth By Media

**Josh Allen**  
Asiantaeth Farchnata

## Hs6 Equestrian

**Abdul-Hasib Soetan**  
Rhaglen Bridio Ceffylau  
[www.instagram.com/hs6equestrian](https://www.instagram.com/hs6equestrian)

## Hutag

**Finn Yabsley**  
Siop Offer Awyr Agored Ar-lein  
[www.hutag.net/en](https://www.hutag.net/en)

## Imersifi

**Jack Bengyfield & Joe Charman**  
Cymwysiadau Realiti Rhithwir

## Jacques2k

**Jack Maloney**  
Darlledu Ffrwd Fyw a Chymysgu Delweddu

## Kiwis

**Dan Eedy**  
Powlenni Llyfnffrwyth Acai

## Life Of The Lion

**Raj Bhamra**  
Cwmni Hunan-welliant a Lles  
[www.tiktok.com/@\\_Life\\_Of\\_The\\_Lion](https://www.tiktok.com/@_Life_Of_The_Lion)

## Sam McCormack Gray Photography

**Sam McCormack Gray**  
Busnes Argraffu Ffotograffau  
[www.sammccormackgrayphotography.com](https://www.sammccormackgrayphotography.com)

## Selltrends

**Waleed Achraf**  
Cyfryngwr Gwerthu Amazon

## Student Décor

**Leo Lee**  
Marchnad Nwyddau Cartref i Fyfyrwyr

## Swanbar

**Jamie Garcia-Sanchez O. Dymond**  
E-Sigaréts

## The Little Ada

**Mia Nelmes**  
Anrhegion Personol a Nwyddau Papur ar gyfer Priodasau  
[www.thelittleadaco.com](https://www.thelittleadaco.com)

## Tydy

**Joshua Armytage, Jake Iggulden, Cameron Wesley, Sam Jones**  
Gwasanaethau Glanhau Masnachol a Domestig

## Virtualosus

**Seb Jones**  
Darparu Gwasanaethau Realiti Rhithwir ar gyfer BBaCh, Gweithwyr Llawrydd ac Artistiaid  
[www.virtualosus.com](https://www.virtualosus.com)







Swansea University  
Prifysgol Abertawe

**MENTORA MYFYRWYR**



# **ADRODDIAD EFFAITH IONAWR-MEDI 2022**

I weld mwy o'n gwasanaethau, ewch i  
[www.swansea.ac.uk/enterprise](http://www.swansea.ac.uk/enterprise)